


Her Allwedd Buddy

ANTUR OFOD



Diwrnod
Rhif

Beth yw Her Allwedd Buddy?

Gêm yw Her Allwedd Buddy lle mae disgyblion yn datrys posau mathemateg i ddod o hyd i ddarnau o allwedd. Gall y dosbarth cyfan ei chwarae gyda'i gilydd.

Ar gyfer pob ateb cywir, gall yr athro ddatgelu lleoliad un darn o allwedd sydd wedi'i guddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae deg darn i'r allwedd, fel jig-so.

Ar ôl dod o hyd i'r holl ddarnau, gallwch ddefnyddio'r allwedd i agor drws y llong ofod er mwyn i Buddy fynd ar ei antur i'r gofod. Gall yr ysgol gwrdd â Buddy cyn iddo fynd.

Gallwch amseru'r her a'i chwarae ar draws y grŵp blwyddyn neu'r ysgol, gan nodi'r amseroedd ar dabl. Yr enillwyr fydd y dosbarth sy'n rhoi'r allwedd at ei gilydd gyflymaf.

Sut mae codi arian


Gall y disgyblion gael eu noddi gan deulu a ffrindiau i gymryd rhan yn Her Allwedd Buddy. Gall teuluoedd godi arian drwy JustGiving neu drwy ddefnyddio ffurflenni noddi a thalu drwy ddull dewisol eich ysgol. Os oes arnoch angen cymorth i sefydlu tudalen JustGiving neu ParentPay eich ysgol, dilynwch y cyfarwyddiadau ar dudalen adnoddau Diwrnod Rhifau, neu anfon e-bost atom ni yn numberday@nspcc.org.uk

Yr hyn sydd arnoch ei angen:

- Copi papur o'r allwedd, wedi'i dorri'n ddeg darn – un darn ar gyfer pob cwestiwn
- Taflen i ddisgyblion ar gyfer pob bwrdd, yn ôl yr angen
- Pensiliau lliwio
- Tudalen JustGiving ar gyfer yr ysgol neu ffurflen noddi wedi'i hargraffu ar gyfer pob disgybl / teulu, er mwyn i rieni allu talu arian i mewn gan ddefnyddio ParentPay neu opsiwn talu'r ysgol
- Amserydd (opsiynol)
- Copi wedi'i argraffu o Buddy



Sut i chwarae:

1. Argraffwch lun o'r allwedd a'i dorri'n ddeg darn.
2. Cuddiwch y darnau o amgylch yr ystafell ddosbarth.
3. Rhowch Buddy yn y lleoliad o'ch dewis yn yr ysgol, fel y maes chwarae, y llyfrgell neu rywle allan o olwg y disgyblion.
4. Argraffwch daflenni'r disgyblion a'u dosbarthu. Dewiswch un set o gwestiynau yn seiliedig ar oed a / neu allu'r plant.
5. Darllenwch y stori i osod yr olygfa.
6. Dechreuwch yr amserydd (os ydych yn ei ddefnyddio).
7. Rhaid i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i ddatrys y posau a'r cwestiynau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen pob cwestiwn i'r plant wrth i chi weithio drwy'r her.
8. Rhowch amser i'r plant feddwl am ateb i bob cwestiwn. Gofynnwch i'r disgyblion godi eu llaw os ydyn nhw'n meddwl eu bod yn gwybod yr ateb, a dewis un ohonyn nhw i rannu'r ateb â'r dosbarth. Os byddan nhw'n rhoi'r ateb cywir, cyfeiriwch nhw at y darn o'r allwedd sydd wedi'i guddio. Gallwch roi cliwiau neu ddefnyddio'r dechneg boeth ac oer.
9. Ar ôl i'r disgyblion ateb deg cwestiwn yn gywir, dod o hyd i'r holl ddarnau a rhoi'r allwedd at ei gilydd, bydd y dosbarth wedi llwyddo a gall y disgyblion gwrdd â Buddy cyn iddo fynd ar ei antur i'r gofod!
10. Stopiwch yr amserydd (os ydych chi'n ei ddefnyddio) a chofnodi faint o amser a gymerodd y dosbarth i gwblhau Her Allwedd Buddy.



Her Allwedd Buddy

ANTUR OFOD



Y Stori

Mae angen i Buddy fynd ar daith i'r gofod i archwilio planedau gwahanol. Ar ei ffordd i'r llong ofod, aeth i rhowch enw eich ysgol i ffarwelio â nhw. Gollyngodd yr allwedd i ddrws y llong ofod yn ddamweiniol, a thorodd yn ddeg darn.

Allwch chi helpu Buddy drwy ateb y cwestiynau i ddatrys y cliwiau a dod o hyd i ddarnau o'r allwedd o amgylch eich ystafell ddosbarth? Ar ôl i'r allwedd gael ei rhoi at ei gilydd, byddwch yn gallu agor drws y llong ofod a chwrdd â Buddy cyn iddo fynd ar ei daith. Mae angen i chi geisio rhoi'r allwedd at ei gilydd cyn y dosbarthiadau eraill. Pob lwc!

Atebion

Taflen i ddisgyblion (A)

- 5
- 1
- 7
- 60
- 5
- 17p
- 4
- 9
- 4
- Hexagon

Taflen i ddisgyblion (B)

- 12
- 80p
- £10
- 6
- 40
- 65
- 16
- 1 = piws, 2 = coch, 3 = glas, 4 = gwyrdd, 5 = melyn
- 12
-




5-7 oed

Her Allwedd Buddy

ANTUR OFOD

Diwrnodly
Rhif



Taflen i ddisgyblion (A)



Yn rhai o'r cwestiynau, rydyn ni wedi defnyddio lluniau o Buddy yn lle rhifau. Allwch chi ddatrys y rhain?

1.  +  =

2.  -  =

3. Mae gan Arman 3 ci ac mae gan Holly 4 ci. Beth yw cyfanswm eu cŵn?

4. Pa rif ddylai ddod ar ddiwedd y patrwm rhifau hwn? 10, 20, 30, 40, 50...?

5. Mae gan Louise  ac mae'n rhoi i ffwrdd . Faint sydd ganddi ar ôl?


6. Mae gan Avi y darnau arian hyn (10c, 5c, 2c). Beth yw cyfanswm yr arian sydd ganddo?

7. Beth yw 2×2 ?

8. Mae gan Jaya 15 oren ac mae'n rhoi 6 i ffwrdd. Faint sydd ganddi ar ôl?

9. Os oes gen i 10 fferen ac rwy'n bwyta 6, faint sydd gen i ar ôl?

10. Allwch chi liwio'r hecsagon isod?



NSPCC

OXFORD
UNIVERSITY PRESS

Her Allwedd Buddy

ANTUR OFOD

Diwrnodly Rhif



Taflen i ddisgyblion (B)

Yn rhai o'r cwestiynau, rydyn ni wedi defnyddio lluniau o Buddy yn lle rhifau. Allwch chi ddatrys y rhain?

1.  ×  =

2. Os yw io-yo yn costio 20c ac rydw i'n prynu 4, faint rydw i'n ei wario?

3. Mae gan Alicia £35 ac mae gan Ferg £15. Mae Alicia yn rhoi rhywfaint o arian i Ferg ac mae ganddyn nhw'r un swm erbyn hyn. Faint o arian a roddodd Alicia i Ferg?

4. $6 + _ = 12$


5. Mae Ryan yn 29 heddiw. Faint fydd oed Ryan mewn 11 mlynedd?

6. Beth yw 70 tynnu 5?

7. Mae gan Olivia 20 fferen ac mae'n bwyta 4 ohonyn nhw. Faint sydd ganddi ar ôl?

8. Allwch chi ddefnyddio'r cod i liwio'r peli mae Buddy yn eu jyglo?

1 = piws, 2 = coch, 3 = glas, 4 = gwyrdd, 5 = melyn



9. Pa rif sydd nesaf yn y dilyniant hwn?

4, 6, 8, 10

10. Chwiliwch am y geiriau hyn yn y chwilair:

Buddy	Cyfrifiannell	Deuddeg
Tynnu	NSPCC	Pedwar
Dis	lluosi	Childline
Rhannu	Saith	




C H I L D L I N E W R E R
E Y S T E V L L P D H D O
D W F X A T O O B E K I P
D R Z R S A I T H U O T E
U B H W I L L T N D A Y D
I U L A S F O D N D E N W
L D I U N C I G E E L N A
C D N M D N K A N G P U Y
A Y E T S X U Z N S P P C
E R P E D W A R L N V E E
M O D D O R L P K C E G U
D I S S J F R I Y T S L S
Q L Y T S A L L U O S I L

NSPCC

 OXFORD
UNIVERSITY PRESS

Her Allwedd Buddy

ANTUR OFOD



Diwrnod
Rhif

NSPCC

OXFORD
UNIVERSITY PRESS